

## **Archifau Morgannwg Hysbysiad Preifatrwydd**

Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn eich helpu i ddeall pa wybodaeth bersonol mae Archifau Morgannwg yn ei chasglu gennych er mwyn cyflawni ein tasg gyhoeddus o ddarparu gwasanaeth archifau trwy dderbyn cofnodion gan adnewwyr a galluogi'r cyhoedd i'w gweld, gwybod sut rydym yn storio ac yn defnyddio'r wybodaeth honno a'r dewisiadau sydd gennych ar ôl i chi rannu eich gwybodaeth bersonol â ni. Lluniwyd hwn i sicrhau bod Archifau Morgannwg yn cydymffurfio â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016.

### **1. Amdanom ni**

Mae Archifau Morgannwg yn gwasanaethu awdurdodau Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg. Mae'n casglu ac yn cadw dogfennau o'r ardal sy'n dyddio o'r 12fed ganrif tan heddiw ac yn rhoi cyfle i'r cyhoedd eu gweld.

### **2. Sut rydym yn defnyddio'r manylion personol rydych yn eu rhoi i ni wrth gofrestru fel defnyddiwr**

I weld casgliad Archifau Morgannwg yn ein hystafell chwilio gyhoeddus, mae'n rhaid i ymwelwyr gofrestru. Mae hyn yn sicrhau diogelwch ein casgliad unigryw.

Er mwyn gwneud hyn, mae angen i ni gasglu a storio eich enw, eich cyfeiriad ac (os ydych yn rhoi hyn) eich cyfeiriad e-bost a'ch rhif ffôn, sy'n cael eu storio ynghyd â'r dyddiadau rydych yn ymweld ag Archifau Morgannwg. Ffynhonnell yr holl ddata personol rydym yn ei ddal yw'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi wrth gofrestru.

Mae cyfraith diogelu data yn nodi bod y sail gyfreithiol rydym yn prosesu eich data arni yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r contract rhyngoch chi ac Archifau Morgannwg.

Cyngor Caerdydd yw'r rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth bersonol rydych chi'n ei rhoi wrth gofrestru gyda'r archifau. Mae eich cofnod cofrestru'n rhan o'n system i sicrhau diogelwch y casgliad. Byddwn yn cadw eich data cofrestru personol am ddeng mlynedd lawn ar ôl eich ymweliad olaf â'r archifau. Caiff yr wybodaeth amdanoch ei defnyddio wrth i ni arfer ein hawdurdod swyddogol ac ni chaiff ei defnyddio at unrhyw ddiben arall. Ni fyddwn yn rhannu eich data â thrydydd parti ac eithrio pan fo gofyn neu ganiatâd i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith.

Nodwch os gwelwch yn dda efallai y bydd eich manylion yn cael ei rhannu gyda rhaglen Profi Olrhain Diogelu Llywodraeth Cymry o fewn 21 diwrnod i'ch ymweliad ag Archifau Morgannwg.

### **3. Sut a phryd rydym yn cysylltu â defnyddwyr cofrestredig**

Yr unig reswm byddwn ni'n cysylltu â chi fydd mewn perthynas â diogelwch casgliad Archifau Morgannwg, er enghraifft er mwyn olrhain defnydd diwethaf dogfen benodol.

Bydd gofyn i ddefnyddwyr sy'n cofrestru ag Archifau Morgannwg ddewis derbyn diweddariadau e-bost gan yr archifau. Os ydych wedi rhoi eich cyfeiriad e-bost ac

wedi cydsynio i dderbyn y diweddariadau hyn, byddwn hefyd yn cysylltu â chi o dro i dro gyda newyddion a gwybodaeth rydym yn credu y gallent fod o ddiddordeb i chi, er enghraifft eich hysbysu am adegau pan fyddwn ni'n bwriadu cau a digwyddiadau cyhoeddus sydd ar ddod.

Os nad ydych yn dymuno derbyn y fath wybodaeth, gallwch ganslo eich tanysgrifiad ar unrhyw adeg trwy ymateb i'n he-bost a gofyn am dynnu eich enw oddi ar y rhestr e-bostio.

#### **4. Sut rydym yn defnyddio'r manylion personol rydych yn eu rhoi i ni wrth adneuo cofnodion**

Mae pob cofnod sy'n cael ei adneuo, ei roi neu'i drosglwyddo i Archifau Morgannwg yn cael ei gofnodi er mwyn cadarnhau perchnogaeth a statws cyfreithiol y casgliad yn Archifau Morgannwg.

Er mwyn gwneud hyn, mae angen i ni gasglu a storio eich enw, eich cyfeiriad ac (os ydych yn rhoi hwn) eich cyfeiriad e-bost a'ch rhif ffôn, sy'n cael eu storio ynghyd â'r dyddiadau rydych yn ymweld ag Archifau Morgannwg. Ffynhonnell yr holl ddata personol rydym yn ei ddal yw'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi wrth gofrestru.

Mae cyfraith diogelu data'n nodi bod y sail gyfreithiol rydym yn prosesu eich data arni'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg gyhoeddus wrth i Archifau Morgannwg arfer ei awdurdod swyddogol.

Cyngor Caerdydd yw'r rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth bersonol rydych chi'n ei rhoi wrth gofrestru gyda'r archifau. Byddwn yn cadw eich data adneuo personol am yr holl gyfnod y mae'r cofnodion rydych wedi'u cyflwyno'n aros yng nghasgliad Archifau Morgannwg. Caiff yr wybodaeth amdanoch ei defnyddio wrth i ni arfer ein hawdurdod swyddogol ac ni chaiff ei defnyddio at unrhyw ddiben arall. Ni fyddwn yn rhannu eich data â thrydydd parti ac eithrio pan fo gofyn neu ganiatâd i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith.

Nodwch os gwelwch yn dda efallai y bydd eich manylion yn cael ei rhannu gyda rhaglen Profi Olrhain Diogelu Llywodraeth Cymry o fewn 21 diwrnod i'ch ymweliad ag Archifau Morgannwg.

#### **5. Sut a phryd rydym yn cysylltu ag adneuwyd**

Yr unig reswm byddwn yn cysylltu â chi fydd mewn perthynas â'r cofnodion rydych wedi'u cyflwyno i Archifau Morgannwg, er enghraifft pan gaiff cais ei dderbyn i gyhoeddi dogfen.

#### **6. Sut rydym yn defnyddio'r manylion personol rydych yn eu rhoi i ni wrth gofrestru fel gwirfoddolwr**

I weld casgliad a defnyddio cyfleusterau Archifau Morgannwg, mae'n rhaid i bob gwirfoddolwr gofrestru. Mae hyn yn sicrhau diogelwch ein casgliad unigryw a'r wybodaeth ynddo a allai fod yn gyfrinachol.

Er mwyn gwneud hyn, mae angen i ni gasglu a storio eich enw, eich cyfeiriad ac (os ydych yn ei roi) eich cyfeiriad e-bost, eich rhif ffôn a manylion cyswllt mewn argyfwng. Caiff y rhain eu storio ynghyd â'r dyddiadau rydych yn cychwyn ac yn

gorffen gwirfoddoli gyda ni. Yn ogystal, bydd angen i chi lofnodi Cytundeb Teyrngarwch gan gytuno na fyddwch yn gwneud defnydd personol o unrhyw wybodaeth gyfrinachol rydych wedi'i derbyn fel gwirfoddolwr. Ffynhonnell yr holl ddata personol rydym yn ei ddal yw'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi wrth gofrestru.

Mae cyfraith diogelu data'n nodi bod y sail gyfreithiol rydym yn prosesu eich data arni'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r contract rhyngoch chi ac Archifau Morgannwg.

Cyngor Caerdydd yw'r rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth personol rydych chi'n ei rhoi wrth gofrestru gyda'r archifau. Mae eich cofnod cofrestru'n rhan o'n system i sicrhau diogelwch y casgliad. Byddwn yn cadw eich data cofrestru personol am ddeng mlynedd lawn ar ôl eich ymweliad olaf â'r archifau. Caiff yr wybodaeth amdanoch ei defnyddio wrth i ni arfer ein hawdurdod swyddogol ac ni chaiff ei defnyddio at unrhyw ddiben arall. Ni fyddwn yn rhannu eich data â thrydydd parti ac eithrio pan fo gofyn neu ganiatâd i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith.

Nodwch os gwelwch yn dda efallai y bydd eich manylion yn cael ei rhannu gyda rhaglen Profi Olrhain Diogelu Llywodraeth Cymry o fewn 21 diwrnod i'ch ymweliad ag Archifau Morgannwg.

### **7. Sut a phryd rydym yn cysylltu â gwirfoddolwyr cofrestredig**

Yr unig reswm byddwn ni'n cysylltu â chi fydd mewn perthynas â diogelwch casgliad Archifau Morgannwg, er enghraifft er mwyn olrhain defnydd diwethaf dogfen benodol, neu mewn perthynas uniongyrchol a'ch rôl fel gwirfoddolwr.

Bydd gofyn i ddefnyddwyr sy'n cofrestru ag Archifau Morgannwg ddewis derbyn diweddariadau e-bost gan yr archifau. Os ydych wedi rhoi eich cyfeiriad e-bost ac wedi cydsynio i dderbyn y diweddariadau hyn, byddwn hefyd yn cysylltu â chi o dro i dro gyda newyddion a gwybodaeth a allai fod o ddiddordeb i chi yn ein barn ni, er enghraifft eich hysbysu o adegau pan fyddwn ni'n bwriadu cau a digwyddiadau cyhoeddus sydd ar ddod.

Os nad ydych yn dymuno derbyn y fath wybodaeth, gallwch ganslo eich tanysgrifiad ar unrhyw adeg trwy ymateb i'n he-bost gan ofyn am ddileu eich enw oddi ar y rhestr e-bostio.

### **8. Sut rydym yn defnyddio'r manylion personol rydych yn eu rhoi i ni wrth gysylltu gydag ymholiad**

Mae Archifau Morgannwg yn cynnig gwasanaeth ymholiad o bell. Gall cwsmeriaid cysylltu â'r Archifau dros e-bost, post neu'r ffôn i ofyn cwestiynau ynglŷn â'n casgliad a'n gwasanaethau, a byddwn yn ymateb.

Er mwyn cynnig ymateb ac i ddilyn trywydd ymholiadau cyfredol, mae angen i ni gasglu a storio eich enw a chyswllt, naill ai eich cyfeiriad neu eich cyfeiriad, e-bost neu rif ffôn. Caiff y rhain eu storio ynghyd â'r dyddiadau rydych yn cysylltu ag Archifau Morgannwg. Ffynhonnell yr holl ddata personol rydym yn ei ddal yw'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi wrth gysylltu â ni.

Mae cyfraith diogelu data'n nodi bod y sail gyfreithiol rydym yn prosesu eich data arni'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r contract rhyngoch chi ac Archifau Morgannwg.

Cyngor Caerdydd yw'r rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth bersonol rydych chi'n ei rhoi wrth gysylltu â'r Archifau. Byddwn yn cadw eich data personol am flwyddyn lawn ar ôl y flwyddyn pan rydych yn cysylltu â'r Archifau. Caiff yr wybodaeth amdanoch ei defnyddio wrth i ni ymateb i a dilyn trywydd eich ymholiad ac ni chaiff ei defnyddio at unrhyw ddiben arall. Ni fyddwn yn rhannu eich data â thrydydd parti ac eithrio pan fo gofyn neu ganiatâd i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith.

### **9. Sut a phryd rydym yn cysylltu ag ymholwyr**

Yr unig reswm byddwn ni'n cysylltu â chi fydd mewn perthynas â'ch ymholiad i Archifau Morgannwg, er enghraifft er mwyn ateb cwestiwn ynglŷn â'r Casgliad.

### **10. Eich hawliau preifatrwydd**

Caiff yr wybodaeth amdanoch ei storio'n ddiogel gan Archifau Morgannwg at y dibenion a nodwyd uchod.

Ni fyddwn yn rhannu eich data â thrydydd parti ac eithrio pan fo gofyn neu ganiatâd i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith.

Mae gennych hawl i ofyn i ni roi copi llawn i chi o unrhyw wybodaeth bersonol rydym yn ei dal amdanoch chi, ac mae'n rhwymedigaeth arnom i roi hwn i chi o fewn mis calendr a hynny am ddim.

Os ydych yn credu bod yr wybodaeth bersonol sydd gennym yn anghywir, er enghraifft os yw eich manylion cyswllt wedi newid, mae gennych chi'r hawl i fynnu bod unrhyw ddata anghywir rydym yn ei ddal amdanoch yn cael ei gywiro ar unwaith.

Os ydych yn credu ein bod yn dal eich gwybodaeth gofrestru bersonol y tu hwnt i'r cyfnod cadw a nodwyd uchod, mae gennych hawl i fynnu iddi gael ei dileu ar unwaith.

Mae hawl gennych hefyd i ofyn i ni drosglwyddo unrhyw ddata personol rydym yn ei ddal amdanoch at unrhyw asiantaeth arall a benodwch.